



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Eithrio'r Rhai sy'n Gadael Gofal Rhag Talu'r Dreth Gyngor

Dyddiad cyhoeddi: 7 Tachwedd 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Rhagfyr 2018

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eich barn ynghylch eithrio'r rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor.

Sut i ymateb

Gellir anfon ymatebion dros e-bost neu eu hanfon yn uniongyrchol at:

Cangen Polisi Treth Gyngor
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGF1Consultations@llyw.cymru

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras ac mewn ieithoedd eraill yn ôl y gofyn.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at:

LGF1Consultations@llyw.cymru
Cangen Polisi Treth Gyngor
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Diogelu data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw, neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch chyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn inni gyhoeddi'r ddogfen.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r chyfeiriadau y byddwn

wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ni chaiff eich data eu cadw am fwy na thair blynedd O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i weld y data personol yr ydym yn eu prosesu amdanoch;
- i fynnu ein bod yn cywiro unrhyw beth anghywir yn y data hynny
- i wrthwynebu (o dan amgylchiadau penodol) prosesu'ch data personol neu gyfyngu ar eu defnyddio
- (o dan amgylchiadau penodol) i'ch data gael eu dileu
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: www.ico.gov.uk

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Rhagair

Yn ein rhaglen lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella tegwch y dreth gyngor. Rwyf wedi ystyried yr amrywiol ffyrdd posibl o newid y system dreth gyngor er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiad hwn i aelwydydd yng Nghymru. Cyhoeddwyd diweddariad ar ein gwaith ar 24 Hydref. Mae un rhan o'r gwaith wedi bod yn edrych ar sut y gallwn wneud y dreth gyngor yn decach i aelwydydd sy'n agored i niwed.

Rwy'n awyddus i sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gwneud pob peth o fewn ein gallu i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a'u cynorthwyo wrth iddynt dyfu'n oedolion a byw'n annibynnol.

Ym mis Mawrth 2017, gofynnais i'r cynghorau ystyried defnyddio'u pwerau disgresiwn i ganiatáu goddefeb llwyr rhag talu'r dreth gyngor i bob un sy'n gadael gofal, beth bynnag y bo'u hamgylchiadau unigol.

Aeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ati i gydlynu'r gwaith hwn er mwyn annog awdurdodau i gynnig eithriadau rhag talu'r dreth gyngor i'r rhai sy'n gadael gofal. Ym mis Hydref 2017, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i eithrio'r rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor. Rwy'n falch iawn o weld yr hyn a gyflawnwyd gan gynghorau eraill sydd wedi cyflwyno eu cynlluniau eu hunain.

Fodd bynnag, mae cryn anghysondeb o ran y cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal ledled Cymru ac efallai na fydd pwerau disgresiwn yn darparu sail statudol ddibynadwy yn yr hirdymor ar gyfer y newid yr ydym yn dymuno ei weld. Felly, rwy'n credu bod angen deddfwriaeth i gywiro'r materion hyn. Rwy'n falch iawn fy mod yn gallu cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori hon i ofyn am eich barn chi ynghylch y mater pwysig hwn.

Mark Drakeford AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

1 Y cyd-destun cyfredol

Ym mis Mawrth 2017, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at yr awdurdodau lleol i'w hannog i ddefnyddio pwerau disgresiwn presennol, o dan adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i roi gostyngiadau yn y dreth gyngor i'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed.

Aeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ati i gydlynu'r gwaith er mwyn annog awdurdodau i gynnig eithriadau rhag talu'r dreth gyngor i'r rhai sy'n gadael gofal. Ym mis Hydref 2017, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i eithrio'r rhai sy'n gadael gofal yn ei ardal rhag talu'r dreth gyngor. Ers hynny, mae nifer o gynghorau wedi cyflwyno eu cynlluniau eu hunain.

Fodd bynnag, nid yw'r cymorth treth gyngor sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn gyson ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Nid yw pob awdurdod wedi cyflwyno cynllun eto, mae rhai wedi dewis estyn y rhyddhad yn ôl disgresiwn i 21 oed, gydag eraill yn rhagnodi 25 oed fel y terfyn oedran uchaf.

Mewn amgylchiadau pan nad yw'r awdurdodau lleol wedi cyflwyno eu cynlluniau eu hunain, caiff y rhai sy'n gadael gofal wneud cais unigol am ryddhad y dreth gyngor ond nid yw'n ofynnol bod y cais yn cael ei ganiatáu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymateb i geisiadau gan lywodraeth leol i ffurfioli'r rhyddhad yn ôl disgresiwn presennol ar sail statudol.

2 Yr achos dros newid

Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn agored iawn i niwed ac yn fwy tebygol o fod wedi wynebu anfantais yn eu bywydau o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae tyfu'n oedolion a'r angen i reoli cyllidebau aelwydydd am y tro cyntaf heb gymorth teuluol yn gallu bod yn heriol, yn enwedig i'r rhai sy'n gadael gofal, oherwydd ychydig iawn o addysg ariannol y bydd nifer ohonynt wedi ei chael.

Mae casgliad cynyddol o lenyddiaeth wedi tynnu sylw at yr anawsterau penodol sy'n wynebu'r rhai sy'n gadael gofal o ran deall biliau'r dreth gyngor am y tro cyntaf a gwybod pa eithriadau sydd ar gael. Mae risg sylweddol y bydd y rhai sy'n gadael gofal yn mynd i ddyled gyda'r dreth gyngor ac mae'r modd y gall hyn arwain yn gyflym at gamau gan y beili ac yna achos llys beri dipyn o ofid i'r oedolion ifanc hyn.

Mae'r costau blynyddol o gyflwyno eithriad yn weddol isel. Amcangyfrifwyd mai'r gost uniongyrchol i awdurdod cyffredin yw tua £10,000. Fodd bynnag, byddai'r costau hyn yn cael eu gwrthbwysu drwy osgoi'r costau y gallai awdurdod fynd iddynt wrth ddarparu cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n gadael gofal ac sy'n cael trafferthion o ran rheoli arian yn eu haelwydydd neu wrth iddynt fynd ati i gasglu dyledion.

Byddai cyflwyno eithriad rhag talu'r dreth gyngor ledled Cymru ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn garreg filltir bwysig yn y gwaith o gefnogi rhai sy'n gadael gofal wrth iddynt dyfu yn oedolion a byw yn annibynnol.

Cafodd yr achos i eithrio'r rhai sy'n gadael gofal rhag bod yn atebol am y dreth gyngor ei dderbyn yn eang ac mae'n ddull o weithredu sydd wedi'i seilio ar yr awdurdodau lleol yn defnyddio'u pwerau disgrisiwn, dull sydd wedi'i brofi. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar fabwysiadu a gweithredu dull cyson o weithredu drwy gyflwyno eithriad statudol.

3 Dull arfaethedig o weithredu

Yn y system dreth gyngor, mae'r term 'eithriad' yn gymwys i fathau penodedig o anheddau, a bydd pobl sy'n bodloni'r meini prawf penodedig yn cael eu 'diystyru' at ddibenion cyfrifo atebolrwydd treth gyngor yr aelwyd. Drwy'r ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at y goddefebau hyn gyda'i gilydd fel 'eithriadau'.

Byddai angen newid y deddfwriaeth i eithrio'r rhai cymwys sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor yng Nghymru. Byddai'r eithriad yn disodli'r rhyddhad yn ôl disgrisiwn, ond efallai na fyddai'n darparu sail statudol ddibynadwy yn yr hirdymor ar gyfer y newid yr ydym yn dymuno ei weld. Dyma'r egwyddorion arfaethedig ar gyfer eithrio:

- Mae'r unigolyn yn berson sy'n gadael gofal.
- Mae'r unigolyn rhwng 18 a 24 oed.
- Unwaith bydd yr unigolyn sy'n gadael gofal yn 25 oed, bydd y dreth gyngor yn ddyledus, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau, disgownt neu ostyngiadau eraill y mae'r unigolyn yn gymwys iddynt.
- Mae'r unigolyn yn gymwys i gael ei eithrio yn yr awdurdod y maent yn preswyllo ynddo ar hyn o bryd, ni waeth lle yr oedd mewn gofal.
- Byddai'r eithriad yn gymwys o flwyddyn ariannol 2019-20 ymlaen. Ni fyddai'n gymwys yn ôl-weithredol ond gallai awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio'u pwerau disgrisiwn i ddarparu gostyngiadau hyd at 31 Mawrth 2019.
- Os bydd person yn yr aelwyd yn cael ei ddiystyru, yna bydd hynny'n gymwys i'r aelwyd gyfan. Er enghraifft, mewn cyd-denantiaeth, byddai'r preswlydd arall yn gymwys i gael disgownt oedolyn unigol a. phe bai pob un o'r meddianwyr eraill sy'n oedolion yn rhan o ddsbarth perthnasol, byddai'r eiddo yn cael ei eithrio.
- Byddai'r eithriad yn gymwys i bob un sy'n gadael gofal o fewn yr ystod oedran cymwys ar, neu ar ôl 1 Ebrill 2019.

Byddwn yn croesawu eich safbwyntiau ar yr egwyddorion hyn a materion cysylltiedig mewn ymateb i'r cwestiynau yn adran 5.

Yn ddarostyngedig i ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, ein nod fyddai dwyn deddfwriaeth ymlaen i gyflwyno eithriad o 1 Ebrill 2019.

4 Y Camau Nesaf

Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor am gyfnod o chwe wythnos.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a thrafod y broses o roi'r dulliau gweithredu a nodir yn y ddogfen hon ar waith gyda nhw.

Unwaith bydd yr ymgynghoriad wedi cau, byddwn yn dadansoddi'r holl ymatebion a byddant yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniad ynghylch a ydym yn mynd i fwrw ymlaen â deddfu er mwyn darparu eithriadau rhag talu'r dreth gyngor i'r rhai sy'n gadael gofal, ac os felly, sut mae mynd ati i wneud hynny.

5 Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / Rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth ychwanegol i rai o'r bobl sy'n gadael gofal drwy eu heithrio rhag talu'r dreth gyngor?

YDW / NAC YDW

Nodwch unrhyw sylwadau

2. Ni all person fod yn atebol am y dreth gyngor nes iddo gyrraedd 18 oed. Ydych chi'n cytuno â'r oedran hwn?

YDW / NAC YDW

Nodwch unrhyw sylwadau

3. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'u pwerau disgresiwn i eithrio'r rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor hyd nes eu pen-blwydd yn 25 oed. Ydych chi'n cytuno y dylai'r eithriad arfaethedig ddod i ben ar ben-blwydd y sawl sy'n gadael gofal yn 25 oed?

YDW / NAC YDW

Nodwch unrhyw sylwadau

4. **Wrth 'rhai/sawl/pobl sy'n gadael gofal' rydym yn cyfeirio at bobl ifanc sydd wedi derbyn gofal am gyfnod o 13 wythnos o leiaf ers iddynt gyrraedd 14 oed, ac a oedd mewn gofal ar eu pen-blwydd yn 16 oed. Dyma ddiffiniad a ddefnyddir gyda ffurfiau eraill o gymorth i'r rhai sy'n gadael gofal. Ydych chi'n derbyn bod hwn yn ddiffiniad addas?**

YDW / NAC YDW

Os na, oes gennych chi ddiffiniad amgenach?

Nodwch unrhyw sylwadau

5. **Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru eithrio'r rhai sy'n gadael gofal ac sy'n byw yng Nghymru ond a gafodd eu gofal mewn rhannau eraill o'r DU?**

YDW / NAC YDW

Nodwch unrhyw sylwadau

6. **A ddylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am bennu neu chwilio am dystiolaeth o statws gadael gofal unigolyn?**

DYLEN / NA DDYLEN

Nodwch unrhyw sylwadau

7. **Sut ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol ymateb i ddyledion treth gyngor presennol sydd eisoes wedi'u cronni gan rai sy'n gadael gofal ac sy'n gymwys i gael eu heithrio?**

Nodwch unrhyw sylwadau

8. **Yn eich barn chi, sut ddylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod pawb cymwys sy'n gadael gofal wedi'u pennu, a sicrhau bod y mwyafrif ohonynt yn hawlio'r eithriad?**

Nodwch unrhyw sylwadau

9. **Yn eich barn chi, a oes ystyriaethau ymarferol eraill y dylid mynd i'r afael â nhw mewn canllawiau?**

Nodwch unrhyw sylwadau

10. **Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar y cynigion.**

Nodwch unrhyw sylwadau

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: